# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Coed Derw**

**Uned 24, Parc Busnes Stradey**
**Heol Mwrwg**
**Llangennech**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 8YP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Coed Derw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Coed Derw Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Chwefror 2024 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn i ystyried rhai elfennau o Ofal a Datblygiad ac Arwain a Rheoli. Felly, nid ydym wedi ystyried y themâu yn llawn.

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd. Maent yn dangos mwynhad wrth chwarae.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n diwallu anghenion unigol y plant ac yn addas ar gyfer eu galluoedd. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn sylwgar tuag at y plant, yn enwedig pan fyddant yn drist. Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud rhai newidiadau i'r cynllun gweithredol er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y lleoliad yn bodloni'r rhan fwyaf o ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau. O ganlyniad, mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cau ac mae dau Gam i Wella ar waith o hyd.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn cael cyfleoedd i wneud rhai dewisiadau drostynt eu hunain. Er enghraifft, y plant sy'n penderfynu pa adnoddau y maent am chwarae â nhw a ble y maent am chwarae. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff am eu bod yn teimlo'n gyfforddus i fynd atynt am dawelwch meddwl a chysur.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dysgu sut i rannu yn briodol. Mae'r plant iau yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd ac yn rhannu adnoddau. Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda ac yn dangos diddordeb wrth chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn chwilfrydig ac yn gwenu wrth iddynt chwarae a rhedeg yn yr ardd fawr.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Maent yn ymgysylltu â'r staff ac yn gwenu at ei gilydd wrth chwarae. Mae'r plant yn meddu ar sgiliau annibyniaeth da ac maent yn gwneud ymgais dda i wisgo eu cotiau a'u hesgidiau glaw cyn mynd allan i chwarae.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau priodol a diddorol ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant, gan gynnwys gweithgareddau i gefnogi eu dychymyg a'u chwilfrydedd. Mae'r staff yn rhoi rhyddid i'r plant ddewis eu gweithgareddau, ac yn darparu amrywiaeth o ardaloedd dysgu ac adnoddau y gallant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r staff yn rhannu negeseuon diogelwch er mwyn sicrhau nad yw'r plant yn brifo eu hunain wrth iddynt edrych drwy'r ffenestr. Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r angen i gadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r staff yn rhoi sylw i'r plant ac yn ofalgar tuag atynt, ac maent yn cynnig maldod iddynt pan fyddant yn drist. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn hyfryd ac yn gyfeillgar a'u bod yn rhoi gofal eithriadol i'w plant. Mae'r staff yn dangos gofal ac empathi gwirioneddol tuag at y plant sy'n drist.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud newidiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y rhan fwyaf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r rheoliadau. Maent yn sicrhau y caiff eu polisïau a'u gweithdrefnau eu rhoi ar waith, ac mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u cynnwys. Fodd bynnag, dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym fod ganddynt system ar waith i gynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau â'r staff. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd y byddant yn rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o bwys drwy gyfrif ar-lein y lleoliad. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella o hyd, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff y cymarebau rhwng yr oedolion a'r plant eu cynnal bob amser, ac mae'r rotas a'r cofnodion o bresenoldeb y plant yn dangos hyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y defnyddir pob aelod o'r staff mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau o staff nad ydynt yn meddu ar gymwysterau sydd wedi cael eu cyflogi i ganolbwyntio ar gadw cofnodion er mwyn galluogi'r aelodau eraill o'r staff i ganolbwyntio ar ofalu am y plant o ddydd i ddydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal yr holl gofnodion gofynnol, ac mae'r rhain bellach yn cael eu trefnu a'u storio'n ddiogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff bob amser yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 27 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bob amser bod digon o staff yn bresennol i ofalu am y nifer o blant sy'n bresennol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 31 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei bod yn rhoi gwybod i AGC am bob digwyddiad o bwys mewn modd amserol. | Heb ei gyflawni |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei bod yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda phob aelod o'r staff. | Heb ei gyflawni |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod cofrestrau'n cael eu cwblhau bob amser ar gyfer y plant a'r staff. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Sicrhau y gall pob unigolyn sy'n gofalu am blant yn y lleoliad, gan gynnwys staff asiantaeth, weithredu'r polisi amddiffyn plant yn hyderus. |
| Safon 11 - Meddyginiaeth | Sicrhau bod y cofnodlyfrau meddyginiaeth yn dangos yn glir yr amser y rhoddwyd y dos diwethaf i'r plentyn cyn iddo gyrraedd y lleoliad. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/06/2024